

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Fercher, 13 Mehefin 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Consulting Panel held Wednesday, 13th of June 2018 at Groeslon Village Hall

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Alun Wyn Jones; Gwyn Owen Jones; Hywel J Owen; Eddie Willcox, David C Davies; Gerwyn Owen
David Roberts Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts, Cyfiethydd/Translator

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Panel Cyng. Gwyn Owen Jones. Diolchodd i bawb am fynychu

Clir Gwyn Owen Jones was elected to chair the Panel. He went straight to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Clive Bayley, Cyng. Dyfed Williams;

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of interest was made by those present

4 Grant Llywodraeth Cymru / Welsh Government Grant

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod y Clerc wedi derbyn galwad gan Swyddog o'r Llywodraeth yn datgan fod y cais am £5,000 wedi ei gymeradwyo OND fod angen cadarnhad a thystiolaeth fod y tri Cyngor sydd yn Bartneriaeth Lleu (Llandwrog, Llanllyfni a Llanwnda) yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu.

Roedd y cais yn "niwlog" o bwy oedd yn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad.

Sylwadau Aelodau - HJO - Cyngor Llanwnda byth yn mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth, felly annhebyg y byddant yn cymryd rhan.

Barn yr aelodau felly oedd y byddai rhaid gwrthod y cynnig

5 Y Briff / The Brief

Trafodwyd dull o ddsbarthu'r holiadur a'u casglu.

DCD o'r farn dylai'r aelodau eu dosbarthu trwy law. Cwestiwn yn codi os ydi hyn yn ymarferol oherwydd daearyddiaeth y gymuned

EW - awgrymu fod gwirfoddolwyr mewn lle i ddsbarthu yn pentref Y Fron sef y gwirfoddolwyr hynny oedd yn anfon tafenni i Cyng. Dilwyn Lloyd yn yr etholiad diwethaf. Awgrymu trefniant trwy Swyddfa'r Post "business reply" gyda'r dychweliadau. Talu felly ond am y defnydd. Awgrymu y dylid disgwyl ond 26% o dychweliadau - sef y tueddiad cenedlaethol.

Angen penderfynu os am brynu gwasanaeth cwmni proffesiynol ar gyfer y cam nesaf (Cwmni Celyn, Llandwrog) - i edrych ar yr holiadur , cynghori ar y trefniadau dosbarthu a chasglu, dadansoddi'r data, cymryd rhan yn y cyfarfodydd cymunedol pentrefi. Yn amodol ar y gyllideb wrth gwrs.

Dosbarthwyd holiadur gan **Cyng. Eddie Willcox** i bob aelod.

Diolchodd y Cadeirydd am ei waith. Roedd pawb yn fodlon derbyn y ddogfen fel pwynt cychwynnol.

Dywedodd **Eddie Willcox** fod yr holiadur wedi ei gwblhau trwy edrych ar holiaduron tebyg gan Gyngorau Plwyf / Cymuned eraill ar draws y wald

Rhaid cadw'r holiadur yn gryno. Awgrymwyd cysylltu gyda Mantell Gwynedd neu Adran Adfywio Cyngor Gwynedd i redeg yr holiadur trwy "monkey survey".

Eto, os penderfynir penodi cwmni proffesiynol i'r cam nesaf o'r gwaith, y bydd disgwyl i'r cwmni gyflawni hyn.

HJO - yn gofyn i aelodau fod yn ofalus rhag rhoi'r argraff fod y Cyngor am gynnig llawer mwy na'r hyn sydd gan y Cyngor a) y grym i gynnig a b) y gyllideb i gynnig

Aethpwyd ati i gynnig gwelliant i'r holiadur

Cwestiwn 1 – Pa Bentref ydych chi'n byw

Cytunwyd i ychwanegu Cilgwyn, Bryn, Maes Tryfan, Dolydd, Bethesda Bach a Ty'n Lon i'r rhestr. Gwahanu Llandwrog a Dinas Dinlle

Cwestiwn 2 - Oedran - angen ystyried os oes angen cynnwys pobol dan 18. Gobeithir cael arweiniad gan gwmni proffesiynol

Cwestiwn 3 – Statws .

Cadw

Cwestiwn 4 – Cynghorydd Cymuned

Newid i "A ydych yn ymwybodol pwy yw eich Cynghorydd Cymuned?"

Cwestiwn 5 - Dyletswyddau a Chyfrifoldebau'r Cyngor

Ychwanegua beth yw'r cyfrifoldebau

Cwestiwn 6 – Gwybodaeth am y Cyngor

Cadw

Cwestiwn 7 – Dull Cludiant

Dileu

Cwestiwn 8 - Graddio Pryderon "Beth sydd yn eich poeni"

Cytunwyd i addasu'r rhestr fel a ganlyn. Pob un o'r penawdau yn benawdau lle mae gan y Cyngor y grym i weithredu

- 1) Cludiant Cyhoeddus
- 2) Cwn / Baw Cwn
- 3) Toiled Cyhoeddus Dinas Dinlle
- 4) Llwybrau Cyhoeddus
- 5) Biniau Halen
- 6) Cyflwr Ffyrdd
- 7) Goryrru
- 8) Diffyg cymdeithasu – (Defnydd isel o'r Neuaddau)
- 9) Caeau Chwarae

- 10) Gweithgareddau leuentid / Clybiau leuentid
- 11) Sbwriel / Plastigion
- 12) Cyflwr Pentrefi / Diffyg Tori Glaswellt
- 13) Diffyg Siopau
- 14) Eraill

Cwestiwn 9 - Pa Welliannau neu Wasanaethau yr hoffech eu gweld?

Cadw

Cwestiwn 10 – Cefnogi Cynnydd yn y Praesept

Dileu

Y cam nesaf –

- 1) Clerc i drefnu cyfarfod ym Mehefin / Gorffennaf o'r Panel
- 2) Argymhell i'r Cyngor i brynu gwasanaeth proffesiynol neu beidio (fel Cwmni Celyn) i gael barn broffesiynol
- 3) Rhagair gan y Cadeirydd - pwy ydym ni? beth ydym ni?
- 4) Penderfynu ar y math o ddogfen orffenedig (yn amodol ar y gyllideb)
- 5) Penderfynu ar y dull dosbarthu a chysgu (yn amodol ar y gyllideb)
- 6) Prynu gwasanaeth proffesiynol i ddadansoddi'r data
- 7) Trefnu cyfarfodydd cyhoeddud yn y pentrefi wedi dadansoddi barn y gymuned

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) ***Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth fel y nodwyd ac yn ymddiried yn y Panel i gyrraedd y cam nesaf.***
- ii) ***Fod y Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r gyllideb i adnabod y cyllid sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad uwchlaw'r £1,500 sydd wedi ei glustnodi***

Recommendation to the Council –

- i) ***For the Council to accept the information as noted and entrust the Panel to move to the next phase***
- ii) ***For the Finance Committee to review the 2018-19 budget to identify any underspend that may be available for the consultation which would be in addition to the £1,500 previously earmarked***

Daeth y cyfarfod i ben am 8:35 yr hwyr / Meeting closed at 8.35pm
--

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
---	--

Dyddiad -	
------------------	--